Rhwydwaith
CYMUNEDAU MWY DIOGEL CYMRU
WALES SAFER COMMUNITIES
Network

Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru
safercommunities@wlga.gov.uk

VAWDASV Team
Welsh Government
Cathays Park
Cardiff
CF10 3NQ
StrategaethVAWDASVStrategy@gov.wales

31/01/2022

**Ymateb i: Ymgynghoriad ar y Strategaeth Genedlaethol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar gyfer 2022 i 2026**

**Cwestiynau'r Ymgynghoriad**

**Cwestiwn 1: Rydym wedi nodi ein prif flaenoriaethau yn yr Amcanion. Ydych chi o'r farn mai dyma'r blaenoriaethau cywir?** Yn Rhannol

**Rhowch rhesymau dros eich ateb:**

Amcan un: Os mai'r amcan yw i herio agwedd y cyhoedd yna mae angen gwybod beth yw agwedd y cyhoedd ar draws y sbectrwm cyfan. Bydd hyn yn golygu ymgysylltu gyda'r holl gymunedau gan gynnwys y rhai nad ydynt prin yn cael eu clywed a sicrhau fod llais pobl ifanc hefyd yn cael ei glywed a chanfyddiadau yn cael eu deall. Nid oes angen herio'r holl agweddau, dim ond herio'r rhai negyddol.

Amcanion un a dau: Mae angen bod yn ymwybodol o iaith. Nid yw dioddefwyr yn ei weld fel trais neu gamdriniaeth ddomestig, ond fel ymddygiad niweidiol. Os caiff yr iaith anghywir ei defnyddio yna fe all fod yn rhwystr i bobl. Roedd y defnydd o'r gair 'her' yn cael ei weld fel rhywbeth a allai fod yn broblem yn gysylltiedig ag iaith, gydag awgrym y dylai amcan un gael ei newid i 'Gweithio gyda phobl i newid agweddau cyhoeddus negyddol tuag at drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar draws poblogaeth Cymru…"

Amcan dau: Nid yw'n gorwedd yn eglur o fewn y strwythur llywodraethu arfaethedig, felly lle fydd yn gorwedd?

Amcan tri: Nid yw hwn bob amser yn hawdd i'w gyflawni pan nad yw'r llysoedd wedi eu datganoli. Mae angen i'r Llysoedd a Chyfiawnder fod yn rhan o'r llywodraethu ond hefyd fe ddylai'r staff gael eu cefnogi a'u hyfforddi i ddeall trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Ar hyn o bryd mae yna ddiffyg barnu a dedfrydau ochr yn ochr â phrofiad gwael i ddioddefwyr. Mae'n ymddangos fod y llysoedd yn siomi'r dioddefwyr ac nad ydynt yn cymryd trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol o ddifrif fel ffurfiau eraill o drais a chamdriniaeth. Hefyd mae yna angen i ganolbwyntio ar raglenni atal cynharach, fel

'newid sy'n para', i atal dwysáu'r sefyllfa yn hytrach na dim ond canolbwyntio unwaith y mae pethau wedi dwysáu i sefyllfa o drais.

Amcan pump: nid oes digon o weithwyr proffesiynol wedi'u hyfforddi i ddarparu hyfforddiant a chefnogaeth. Mae'n costio i hyfforddi Eiriolwr Annibynnol Trais Domestig, ac felly mae ansicrwydd o ran cyllid yn golygu eu bod yn anodd i'w cadw a byddant yn aml yn symud ymlaen neu i sectorau eraill gyda chyllid mwy cynaliadwy. Mae yna broblemau recriwtio ar gyfer gwasanaethau arbenigol fel mewn sectorau eraill ar hyn o bryd.

**Cwestiwn 2: Ydych chi o'r farn mai'r dull gweithredu cyffredinol y byddwn yn ei defnyddio, fel y nodir yn yr adrannau ar y Glasbrint, yw'r un cywir i roi terfyn ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol?** Nac ydw

**Rhowch rhesymau dros eich ateb:**

Mae'n teimlo fel seilo Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, ond nid yw pobl yn byw mewn seilos; nid oes yna unrhyw ofod ar gyfer yr hyn sy'n achosi canlyniadau a chydafiachedd gydag iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau, ymddygiad gwrth-gymdeithasol, caethwasiaeth fodern a diogelu/elfennau sy'n gwneud pobl yn ddiamddiffyn. Mae angen iddo gysylltu gyda rhaglen ddiogelwch y gymuned yn ehangach yn ogystal â gydag iechyd a diogelu.

Nid oes dim sy'n nodi fod gweithgarwch ar-lein gyda lluniau rhywiol yn fater ehangach cynyddol.

Hefyd nid oes dim yn ymwneud â Thrais Plentyn tuag at Riant y cyfeirir yn aml ato fel Trais a Chamdriniaeth Unigolyn yn y Glasoed tuag at Riant. Mae hyn ar adeg pan fo'r cyfyngiadau Covid yn ymddangos fel pe bai wedi cynyddu lefelau hyn a chynnydd mewn adrodd am hyn. Mae hyn yn gofyn am wasanaeth arbenigol ac nid ei ychwanegu i'r gwasanaethau cam-drin domestig eraill.

Mae casglu data yn ail weithred fel arfer o ran trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae pobl yn cysylltu mewn argyfwng, yn aml yn cysylltu â 999, 101 neu ffrindiau a theulu. Sicrhau fod y dioddefwr yn ddiogel yw'r flaenoriaeth gyntaf, sy'n golygu fod angen cam gweithredu yn hytrach na chasglu data. Caiff data fel arfer ei gasglu ar ôl y digwyddiad. Teimlwyd felly fod angen ei gwneud yn glir fod casglu data, tra'i fod yn hanfodol, ochr yn ochr â sicrhau fod dioddefwyr a'u teuluoedd yn ddiogel.

Mae angen canolbwyntio ar sut i weithredu ar yr adnoddau a'r pwerau gan fod yna ddiffyg cysondeb ar draws Cymru. Mae angen ymagwedd ar y cyd a gaiff ei gyd-gynhyrchu gan ymarferwyr fel ei fod yn gweithio a'i fod yn cyflawni ar gyfer pobl ac yn dod â'r loteri cod post i ben. Mae hyn yn cynnwys y pwerau a ddarparwyd i reoli stelcio, na gaiff prin ei grybwyll o gwbl.

**Cwestiwn 3: Rydym wedi nodi'r egwyddorion sy'n sail i'r strategaeth Genedlaethol ddrafft. Ydych chi'n cytuno gyda rhain?** Ydw

**Rhowch rhesymau dros eich ateb:**

Rydym ni'n credu fod yna un egwyddor sydd ar goll, sef Atal.

**Cwestiwn 4: Ydych chi'n cytuno gyda ein blaenoriaethau uniongyrchol?** Ydw, ond rydym o'r farn bod rhai wedi eu gadael allan.

**Rhowch rhesymau dros eich ateb:**

Rydym yn cytuno gyda'r rhai sydd wedi eu nodi, ond rydym ni'n credu fod yna nifer nad ydynt wedi eu cynnwys.

Mae'r sylw ar y rhanbarthol yn unig, byrddau ac ymgynghorwyr rhanbarthol, nid oes gan bob un elfen ranbarthol ac mae yna rai sy'n parhau i fod â rhai lleol a gyda'r Ddyletswydd Trais Difrifol yn cynnwys trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol pan gaiff ei gyflwyno mae'n debygol y bydd angen ymateb lleol.

Nid oes yna flaenoriaeth uniongyrchol wedi ei chysylltu â dal tramgwyddwyr i gyfrif. Hyd nes y bydd hyn yn dechrau digwydd mae'r blaenoriaethau eraill yn debygol o gael eu heffeithio'n negyddol.

Cyllid. Mae comisiynu ar hyn o bryd yn achosi problemau. Daw cyllid drwy ystod o ffynonellau cyllido, sydd i gyd gyda'u gofynion eu hunain. Mae hyn yn golygu mai dim ond rhannau o'r hyn y gallai gael ei wneud a gaiff ei wneud gan nad oes yna gyllid penodol ar gyfer trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae cyllid yn rhywbeth tymor byr. Dylid ystyried anghenion lleol, a allai fod yn wahanol i anghenion rhanbarthol, yn arbennig lle mae yna awdurdodau lleol trefol mawr a chymunedau lleol gwledig bach o fewn rhanbarth. Rydym yn teimlo y dylid gosod un safon ar gyfer comisiynu, ond yna dylid ymgymryd â safbwynt ehangach i alluogi ystod ehangach o ddewisiadau comisiynu, sy'n galluogi ar gyfer y rhanbarthol lle bo'n briodol ac ar gyfer y lleol. Mae'r Ddyletswydd Trais Difrifol, sydd i ddod i fodolaeth drwy ddeddfwriaeth y DU, yn mynd i ddod â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol oddi mewn i'r ddyletswydd a bydd yn ofynnol ar lefel leol, gan dynnu adnoddau i ffwrdd o bosibl, ond hefyd cysylltu'r asesiad a'r ymateb i drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol gyda thrafodaethau diogelwch y gymuned yn ehangach a'r Partneriaethau Diogelwch Cymunedol.

**Cwestiwn 5: Beth yw'r peth pwysicaf y gallwn ei wneud i roi terfyn ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn eich barn chi?**

Amlygwyd atal fel y ffordd bwysicaf i ddod â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol i ben. Ond rydym yn cydnabod fod angen ymagwedd fwy eglur, mwy strwythuredig ac ar y cyd o ran darparu gwasanaeth ar draws yr holl lwyfannau a gyda'r holl bartneriaid er mwyn gwneud hynny'n llwyddiannus. Awgrymwyd er mwyn gwneud hyn fod angen cyllid ar y cyd, llywodraethu mwy eglur ac ymagwedd gyfannol o ran cyflawni ar Bartneriaethau.

Ystyriwyd addysg gynnar fel maes allweddol ar gyfer canolbwyntio sylw. Fodd bynnag cefnogwyd yr angen am negeseuon cyson a pharhaus ar draws y cenedlaethau. Yn benodol ar beth yw perthynas iach, ymddygiadau nad ydynt yn dderbyniol ac egluro canlyniadau ymddygiad niweidiol.

Holwyd a ymgysylltwyd yn llawn gydag ysgolion, gwasanaethau ieuenctid, y timau troseddau ieuenctid ac allgymorth ieuenctid o fewn y broses ymgynghori hon a theimlwyd y bydd yr angen i ymgysylltu gyda phobl ifanc mewn amgylchedd sy'n ddiogel pan maent yn iau yn atal ymddygiadau niweidiol yn y dyfodol.

Amlygwyd y Timau Ymyrraeth Gynnar a Pholisi Trechu Ysgolion fel dulliau posibl i gefnogi cyflawni'r strategaeth.

**Cwestiwn 6: Ydych chi o'r farn bod unrhyw beth y dylen fod yn ei wneud fel rhan o'r strategaeth hon a all gael effaith gadarnhaol ar gyfeluoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg?**

Cyn belled â bod holl elfennau'r Strategaeth yn cael eu cyflawni'n ddwyieithog nid oes gennym ni unrhyw sylwadau o dan y cwestiwn hwn.

**Cwestiwn 7: A oes unrhyw beth arall y dylem fod yn ei wneud i roi terfyn ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn eich barn chi, neu oes gennych sylwadau eraill?**

Amlygwyd atal fel blaenoriaeth a rennir ond nodwyd nifer o feysydd eraill gennym y teimlwyd fod eu hangen er mwyn atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Rydym yn teimlo mai dim ond os yr ymgynghorir â'r lleisiau cywir ar y cychwyn, gan gynnwys dioddefwyr, goroeswyr, plant a phobl ifanc a thramgwyddwyr yn ogystal â darparwyr gwasanaeth, y bydd canlyniadau llwyddiannus yn digwydd o ran y strategaeth hon.

Mae cyfathrebu ac ymgysylltu yn hanfodol ac mae angen i'r iaith a ddefnyddir mewn negeseuon amlygu termau fel 'ymddygiadau nad ydynt yn iach neu sy'n niweidiol' yn hytrach na 'cham-drin domestig' sy'n llai tebygol yn ein barn ni o wneud i ddioddefwyr roi gwybod am gamdriniaeth.

Mae'r cyfrifoldeb dros gynyddu perchnogaeth ddiwylliannol a chydnabod ymddygiadau nad ydynt yn iach yn gorwedd ym mhob maes busnes. Rydym ni'n teimlo pe ymgysylltir yn fwy gyda'r gymuned neu pe roddir arweiniad mwy eglur i'r gymuned ar sut i gyfeirio eraill at gymorth a chefnogaeth briodol yna byddai yna gynnydd yn y nifer sy'n ymgymryd â'r gwasanaethau ar bwynt cynharach yn hytrach na disgwyl hyd nes bod yna risg difrifol o niwed neu hyd nes yr ymatebir i drais.

**Cwestiwn 8: Sut y dylem fesur cynnydd a llwyddiant wrth gyflawni'r pethau a amlinellir yn y strategaeth hwn.**

Ni wnaethom ddiystyru'r anawsterau o ran nodi ymagwedd addas a chyson i fesur cynnydd, fodd bynnag roeddem yn teimlo fod canolbwyntio ar yr hyn sydd angen ei fesur yn hytrach na beth y gellir ei fesur neu pa wybodaeth sydd ar gael yn barod o gymorth.

Rydym yn pryderu nad yw'r Strategaeth yn llwyddo i gydnabod ymyrraeth gynnar ac o ran hynny sut mae'r Strategaeth yn bwriadu mesur trais yn erbyn plant a phobl ifanc?

Mae mesur yr hyder sydd gan bobl o ran gallu adrodd yn rhywbeth da, ond yr hyn allai ddangos mwy yw mesur y gyfran o ganlyniadau cadarnhaol. Byddai'r gostyngiad yn y niferoedd o ddioddefwyr parhaus, tramgwyddwyr parhaus ac adroddiadau boddhad dioddefwyr yn ffyrdd defnyddiol o fesur. Mae'n bosibl nad erlyniad yw canlyniad llwyddiannus i ddioddefwyr ond bod y troseddau wedi dod i ben. Byddai adborth rheolaidd gan ddioddefwyr yn gallu mesur yr effaith mae'r strategaeth hon yn ei gael.

Nid yw ffigyrau cyfredol a gesglir (Dangosyddion Perfformiad Allweddol ayb) bob amser yn gywir gan fod sefydliadau gwahanol yn mesur pethau'n wahanol ac felly nid yw'r data bob amser yn gywir ac nid oes modd ei gymharu.

Fe wnaethom ni nodi nad oedd y Rhaglen Cyflawnwyr wedi ei restru o fewn yr ymgynghoriad ond gellid defnyddio llwyddiant y rhaglen honno fel dangosydd o effeithiolrwydd ar gyfer y Strategaeth hon.

Rydym yn cynnig awgrym pellach drwy gyfrwng monitro'r nifer o unigolion / gweithwyr proffesiynol sy'n mynychu digwyddiadau/hyfforddiant. Fodd bynnag rydym yn gwerthfawrogi y byddai hyn eto yn gofyn am strwythur llywodraethu mwy cysylltiol er mwyn monitro canlyniadau'r hyfforddiant yn effeithiol.

**Cwestiwn 9: Ydych chi'n cytuno gyda chwmpas y Strategaeth?** Ydw/Nac ydw

**Rhowch rhesymau dros eich ateb:**

Mae angen ymestyn y cwmpas i Fesur yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd sydd ar hyn o bryd yn mynd trwy broses ddeddfwriaeth y DU. Bydd hyn yn dod â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol i mewn i'r Ddyletswydd Trais Difrifol, ac felly sut y bydd yr asesiad o fewn y gofyniad hwnnw ar gyfer Partneriaethau Diogelwch Cymunedol yn mynd i weithio ochr yn ochr â datganoli i'r rhanbarthau a llywodraethu ar wahân ar gyfer trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

**Cwestiwn 10: Rydym wedi cynnig trefniadau llywodraethu, sy'n cynnwys gweithio gyda sefydliadau partner allweddol a nifer o is-grwpiau/ffrydiau Gwaith, i fynd I'r afael gyda materion penodol. Ydych chi o'r farn y bydd cydweithio yn y ffordd hon yn helpu i gydgysylltu'r Gwaith o roi terfyn ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn well?** Na – dim ond i raddau.

**Rhowch rhesymau dros eich ateb:**

Mae'r Bwrdd Gweinidogol yn dangos ymrwymiad clir. Fodd bynnag nid oes yna unrhyw gysylltiadau gyda meysydd gwaith eraill. Nid yw'n ymddangos fod yna unrhyw ofod ar gyfer dioddefwyr na thrafodaeth yn ymwneud â bod yn ddiamddiffyn. Nid yw trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn gorwedd yn ynysig, mae angen cysylltiadau gan Lywodraeth Cymru yr holl ffordd drwy'r strwythur i Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol, Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus, Byrddau Diogelu Cymunedol a Byrddau Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau, yn ogystal â gyda thai, digartrefedd ac addysg.

I ryw raddau bydd y trefniadau yn dibynnu ar bwy yr ymgysylltir â nhw ar bob lefel. Teimlir fod angen i grwpiau sy'n gwneud penderfyniadau strategol gynnwys ymarferwyr, goroeswyr a lleisiau tramgwyddwyr os yw newid i ddod yn bosibl. Mae angen i syniadau strategol allu cael eu cyflawni yn ymarferol, a dim ond os oes yna lais cyflawni ymarferol ar y Byrddau sy'n gwneud penderfyniadau y mae hynny'n bosibl, llais a all ddarparu'r realiti o ran yr hyn sy'n digwydd mewn cartrefi, ar y strydoedd ac mewn cymunedau.

Mae angen cysylltedd gan y strwythur llywodraethu er mwyn cyflawni ar lawr gwlad. Ar hyn o bryd mae datgysylltiad rhwng y lleol a'r rhanbarthol. Pan fo yna elfen ranbarthol mae'r cysylltiadau lleol a'r sylw yn cael eu colli gan arwain at wasanaethau mwy gwael i ddioddefwyr a thramgwyddwyr mewn rhai achosion. Pan fo elfen leol yn unig mae'n bosibl nad oes digon o angen i wneud comisiynu gwasanaeth yn bosibl neu'n gynaliadwy.

Mae awgrym y dylid canolbwyntio ar yr elfennau sy'n gwneud unigolion yn ddiamddiffyn ac o fewn atal trais yn hytrach nac yn ynysig. Mae yna bryder nad oes yna unman ar gyfer cysylltiadau gyda gwasanaethau plant a phobl ifanc, gan gynnwys addysg. Canolbwyntir ar y rhain mewn mannau eraill ond nid yn y rhan hon ac felly maent yn debygol o ddod yn ynysig ac ar wahân i'r elfennau eraill.

Nid yw'r is-grwpiau fel pe baent yn cyd-fynd ag elfennau eraill y ddogfen. Nid yw'n eglur lle byddai trais rhywiol yn gorwedd, nac aflonyddu rhywiol. Hefyd mae angen meddwl am gapasiti gan mai dim ond hyn a hyn o bobl sydd yna i fynychu cyfarfodydd. Mae angen edrych ar strwythurau partneriaeth a'u defnyddio yn hytrach na chael a chreu rhai newydd sy'n ymestyn capasiti pobl hyd yn oed ymhellach.

Teimlir hefyd nad yw'r is-grwpiau yn cyd-fynd â'r amcanion, ymagwedd a'r egwyddorion.

Nid yw'r strwythur llywodraethu yn ymdrin â'r her ehangach yn ymwneud â chyllid ar gyfer trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Daw cyllid o ystod o raglenni eraill gyda'u strwythur llywodraethu eu hunain ac felly heb gyllid bydd y strwythur hwn yn dweud beth sydd angen digwydd heb unrhyw adnoddau i'w gyflawni, gan arwain at alinio gyda rhaglenni eraill sy'n ffynhonnell i'r arian ond gydag amcanion gwahanol, gan adael bylchau o bosibl. Mae'n rhaid i beth bynnag sydd angen ei gyflawni gael adnoddau priodol. Ychydig o hyblygrwydd a adawyd gan y blynyddoedd o lymder o fewn oriau staff ar gyfer elfennau ychwanegol.

**Cwestiwn 11: Ydych chi'n weithiwr proffesiynol sy'n gweithio gyda dioddefwyr, goroeswyr a chyflawnwyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol?**

Daw'r ymateb hwn gan ystod o weithwyr proffesiynol diogelwch cymunedol o'r heddlu ac awdurdodau lleol a dynnwyd ynghyd gan Rwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru.

**Cwestiwn 12: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig and ydyn ni wedi mynd i'r afael gyda nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny:**

Rydym yn bryderus ynglŷn â pha mor ynysig ydyw. Fe wneir cysylltiadau gyda chynlluniau gweithredu cydraddoldeb, ond nid gyda'r meysydd diogelwch cymunedol a diogelu ehangach.

Mae yna ffocws cyfyngedig ar ddod â'r elfennau datganoledig a'r elfennau nad ydynt wedi eu datganoli ynghyd a lleihau dyblygu a meysydd posibl o wrthdaro. Er enghraifft ni chrybwyllir Adolygiadau Lladdiadau Domestig a'r Adolygiad Diogelu Unedig Sengl a fydd yn gofyn i'r Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol i gydweithio i gynnal adolygiadau sy'n croesi drosodd i faes trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Mae'r Rhwydwaith yn dymuno ei gwneud yn eglur ein bod yn croesawu ac yn cytuno gydag elfennau helaeth o'r Strategaeth a thra rydym yn ymwybodol ein bod wedi amlinellu nifer o feysydd yr ydym yn teimlo sydd angen eu cryfhau, rydym yn gwerthfawrogi gwaith a gweledigaeth y Strategaeth.

**Enw:** Sarah Capstick
**Sefydliad:** Rhwydwaith Cymunedau mwy Diogel Cymru
**E-bost:** safercommunities@wlga.gov.uk